

Yr Hawl i Apelio

Eich Hawl i Apelio

- Os nad ydych yn hapus â phenderfyniad a wnaed gan yr awdurdod addysg lleol am addysg neu anghenion addysgol ychwanegol eich plentyn, mae gennych yr hawl i apelio.
- Gallwch hefyd wneud cais am wahaniaethu ar sail anabledd os ydych yn teimlo y cafodd eich plentyn ei drin/thrin yn annheg yn yr ysgol oherwydd ei (h)anabledd.
- Bydd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Anghenion Addysgol Ychwanegol yn gallu cynnig mwy o gyngor a chefnogaeth ichi trwy gydol y broses hon.

Hawl Plentyn i Apelio

- Mae gan eich plentyn yr hawl hefyd i apelio neu wneud cais, yn annibynnol arnoch chi. Erbyn hyn, mae gan blant a phobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin yr un hawliau â'u rhieni neu ofalwyr i wneud apêl neu gais i SENTW (Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru)
- Bydd y Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Anghenion Addysgol Ychwanegol yn gallu cynnig mwy o gyngor a chefnogaeth ichi trwy gydol y broses hon.

- Rhaid gwneud apêl o fewn 2 fis i dderbyn y penderfyniad terfynol.
- Golyga hynny yr aiff y mater i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru annibynnol (SENTW).
- Bydd Datrys Anghytundebau hefyd ar gael ichi; proses yw hon lle y mae'r awdurdod lleol (AALI) a/neu ysgolion a rhieni yn cyfarfod i ddod o hyd i ateb i wahaniaeth barn yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig.